NCMA Cymru a Gofal Plant o 'Ansawdd'

1. Cyflwyniad

1.1 Y cefndir i'r ymchwil

Yn dilyn trafodaethau cyffredinol gyda staff NCMA Cymru yng Nghymru dros y deuddeg mis diwethaf, penderfynodd NCMA Cymru adolygu'r cynlluniau ansawdd presennol sydd ar gael i ofalwyr plant yng Nghymru drwy ein sefydliad. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod cynllun Ansawdd yn Gyntaf NCMA ar fin dod i ben i ymgeiswyr newydd erbyn diwedd 2010, ac o ystyried yr ansicrwydd o ran ein cyllid oddi wrth awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, yn unol â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd angen gwneud hyn er mwyn

- Sicrhau gwerth am arian i'r rhai sy'n rhoi cyllid i NCMA Cymru
- Sicrhau perthnasedd y cynlluniau ansawdd i ofalwyr plant yng Nghymru
- Sicrhau bod cynlluniau ansawdd yn cyd-fynd â pholisïau Cynulliad Cymru (er enghraifft Gweithredu'r Hawliau, y Strategaeth Tlodi Plant, y Cyfnod Sylfaen, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf)
- Hyrwyddo mynediad at gynllun ansawdd i fwy o ofalwyr plant yng Nghymru, a sicrhau nad yw'r cynllun yn elitaidd nac yn gwahaniaethu.

2 Methodoleg

2.1 Sut gwnaethom ni gyflawni hyn?

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â staff, gofalwyr plant, rhanddeiliaid allweddol o awdurdodau lleol, a phlant a'u teuluoedd er mwyn cael amcan o'u barn.

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad â staff NCMA Cymru, un yn y gogledd a'r llall yn y de. Roedd y staff nad oeddent wedi gallu dod i'r sesiynau hyn, ond a

oedd yn dymuno cyfrannu, wedi cael cyfle i wneud hynny drwy gyfarfodydd a negeseuon e-bost. Cynhaliwyd cyfarfod gydag aelod staff unigol yn dilyn hyn.

Cynhaliwyd tri ymgynghoriad â staff o awdurdodau lleol Cymru yng Nghaerdydd, yn Llanelli ac ym Mae Colwyn. Daeth 18 o staff o 16 o awdurdodau lleol ledled Cymru i'r rhain. Yn dilyn y sesiynau, cysylltwyd â'r chwe awdurdod lleol arall drwy neges e-bost er mwyn eu hysbysu eto bod modd iddynt gyfrannu at y broses, ond ni chafwyd ymateb gan yr un ohonynt.

Cyfrannodd tua 50 o ofalwyr plant o bob cwr o Gymru eu barn ar Sicrhau Ansawdd trwy gyfres o sesiynau mewn digwyddiadau ymgynghori, grwpiau gofal plant, nosweithiau rhwydweithio, holiaduron a chysylltiadau dros y ffôn a thrwy e-bost.

2.2 Ymgynghoriadau â phlant

Cafodd pynciau eu codi mewn ffordd wahanol, yn briodol i oedran a cham datblygu'r plant a oedd yn bresennol. Rhoddwyd gwybodaeth am y sesiynau a gynhaliwyd i rieni'r plant a wnaeth gymryd rhan yn y sesiynau. Gofynnwyd am ganiatâd ysgrifenedig rhieni'r holl blant a wnaeth gymryd rhan yn y sesiynau a phwysleisiwyd na fyddai unrhyw sesiwn na'r plant cysylltiedig yn cael eu henwi.

2.2.1 De-orllewin Cymru (36 o blant blwyddyn chwech)

I ddechrau, gofynnwyd i blant beth oedd yn bwysig iddynt pan fyddai rhywun yn gofalu amdanynt. Buont yn gweithio mewn grwpiau bach o rhwng pump a chwech o blant, gan gynhyrchu map meddwl yn dangos eu barn. Mae canfyddiadau hyn yn cael eu trafod yn y pwyntiau allweddol o'r ymgynghoriadau â phlant yn adran 3.4.

Defnyddiwyd gweithgaredd 'graddio diemwnt' fel ail weithgaredd gyda'r grŵp hwn o blant. Rhoddwyd 9 datganiad yn ymwneud ag elfennau o ddarpariaeth gofal plant i'r plant hyn, a gofynnwyd iddynt eu graddio gan ddefnyddio siart graddio diemwnt. Rhoddwyd 9 datganiad amrywiol a ddaeth o restr o 36 datganiad, y gellid eu grwpio yn ôl elfennau hyfforddi, rhinweddau personol y

gofalwr, datblygiad emosiynol a lles plant ac amgylchedd y lleoliad. Eto, mae canfyddiadau'r gweithgaredd hwn yn cael eu trafod yn adran 3.4.

3.4 Ymgynghoriadau â phlant

3.4.1 Ymgynghoriad â Phlant De Cymru

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn mewn ysgol gynradd yn y de-orllewin, gyda 36 o blant o flwyddyn chwech (rhwng 10 ac 11 oed) a oedd wedi cael profiadau amrywiol o ofal plant.

Roedd yr elfennau a ystyriwyd bwysicaf gan y plant a wnaeth gymryd rhan yn ddatganiadau sy'n gallu cael eu cysylltu ag amgylchedd y lleoliad a datblygiad emosiynol a lles plant. Roedd y rhain yn cynnwys cadw plant yn ddiogel, peidio â gwahaniaethu, gwybod beth roedd y plant yn ei hoffi neu'n ei gasáu a chael cartref glân.

3.4.2 Amlygwch un pwynt sy'n bwysig i chi pan fydd rhywun yn gofalu amdanoch chi (36 o blant)



3.4.3 Pwyntiau allweddol o'r ymgynghoriad â phlant yn Ne-orllewin Cymru

- Roedd cadw plant yn ddiogel yn bwysig iawn i blant yn y grŵp hwn ac roeddent wedi crybwyll hyn mewn trafodaethau yn ystod pob

gweithgaredd. Roeddent yn trafod diogelwch o safbwynt nodweddion diogelwch fel clwydi ar gyfer grisiau, cymryd risgiau ac ati, a diogelwch personol yn gysylltiedig â bwlio a cham-drin. Roedd y plant yn llafar iawn ynghylch rhannu pwysigrwydd yr agwedd hon.

- Thema gyffredin arall oedd gallu chwarae yn yr awyr agored a chael offer tu allan; roedd gemau a chwaraeon a lle i chwarae oll yn nodwedd amlwg o drafodaethau.
- Roedd lleoliad glân yn bwysig i fwyafrif y plant a oedd yn bresennol ac roedd rhai plant hefyd yn rhoi pwys ar beth fyddai barn eu rhieni pe na bai'r lleoliad yn lân.
- Roedd mynediad at offer TG a gemau cyfrifiadurol yn bwysig i nifer o blant, sy'n adlewyrchu'r symud tuag at dechnoleg.
- Ystyriwyd bod cael ffrindiau yn y lleoliad yn bwysig ac roedd bod yn hapus yno wedi cael ei amlygu'n agwedd allweddol arall.
- Perthynas glòs; roedd rhai o'r ymatebion unigol gan blant wrth drafod hyn yn gysylltiedig â chreu perthynas glòs rhwng plant a'r gofalwr plant. Roedd hyn yn cynnwys:

> *'Mae angen i chi gael amser i greu perthynas glòs â nhw, dydych chi ddim yn mynd i fynd i dŷ rhywun a bod yn hapus'* (Rhian, 10 oed).

> *'Mae'n rhaid i chi wneud yn siwr eu bod nhw'n gofalu amdanoch chi oherwydd os ydyn nhw'n gofalu am bawb arall yn lle hynny, gallech chi deimlo'n unig'* (Kingsley, 10 oed)

Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cael plant i setlo hyd yn oed pan fyddant yn hŷn. Bydd babanod fel arfer yn cael cyfnodau i setlo ond yn aml, rhagdybir nad oes angen hyn ar blant hŷn. Hefyd, mae'n dangos pwysigrwydd cymarebau mewn lleoliad a bod gofalwyr plant yn cael amser i feithrin perthynas glòs gyda'r plant.